Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


# Pecyn gwybodaeth: Cynllun Llygenhadon

[WWW.CHILDCOMWALES.ORG.UK](http://www.childcomwales.org.uk)

## Sut gall Llysgenhadon fod o fudd i'ch ysgol?

Gallwch chi gynnal y cynllun yn y ffordd sy'n gweithio orau i'ch ysgol. Gallai hyn fod yn defnyddio grŵp sydd eisoes yn bodoli fel cyngor eich ysgol/llais disgyblion neu grŵp hawliau i arwain y gwaith neu ddechrau o'r newydd gyda grŵp newydd. Mae rhai ysgolion yn dewis enwebu dau lysgennad tra gall eraill ddewis gweithio gyda grŵp cyfan.

Rydym wedi dod ar draws grwpiau hawliau gwych ledled Cymru gydag amrywiaeth o enwau rhagorol gan gynnwys; Criw Hawliau a 'Rights Rangers.'




**Cofiwch i ddilyn @childcomwales**

## Beth gewch chi:

- Mater y Mis
- Adnoddau a chynlluniau gwersi sy'n cysylltu â'r cwricwlwm
- Syniadau ar gyfer hawliau yn yr ysgol
- Gwahoddiad i weminar gyda'r Comisiynydd yn yr Hydref // Gwahoddiad i'n tîm gynnal gweithdy (ysgol uwchradd yn unig)

Mae croeso i chi hefyd ofyn am:

- Posterau
- Cardiau symbolau hawliau


Ebostiwch rhiannon.llewelyn@childcomwales.org.uk os i chi eisiau derbyn rhai.

# Llysgenhadon Hawliau a'r Cwricwlwm

Rydym wedi mapio'r cwricwlwm yn erbyn y CCUHP a'r CCUHPA. Gallwch ddod o hyn i hyn drwy glicio yma.

Mae deall a hyrwyddo parch at hawliau dynol yn rhan o ofynion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer dylunio cwricwlwm. Mae tair prif elfen i addysg hawliau dynol:

- Dysgu am hawliau dynol: Caffael gwybodaeth a sgiliau am hawliau dynol;
- Dysgu drwy hawliau dynol: Datblygu gwerthoedd ac agweddau parchus a newid ymddygiad sy'n adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol; a,
- Dysgu ar gyfer hawliau dynol: Cymhelliant gweithredu cymdeithasol a grymuso dinasyddiaeth weithredol i hyrwyddo parch at hawliau pawb



How do the human rights of children underpin the four purposes?

| Healthy, confident individuals who are ready to lead fulfilling lives as valued members of society | | |
|---|---|---|
| Purpose | The UNCRC | The UNCRPD |
| • have secure values and are establishing their spiritual and ethical beliefs | • Article 2: Non-discrimination<br>• Article 7: Registration, name, nationality, care<br>• Article 8: Preservation of identity<br>• Article 13: Freedom of expression and access to information<br>• Article 14: Freedom of thought, conscience and religion<br>• Article 29: Aims of education<br>• Article 30: Children of minorities/indigenous groups | • Article 7: Children with disabilities<br>• Article 12: Equal recognition in law<br>• Article 17: Protection for physical and mental integrity<br>• Article 18: Freedom of movement and right to nationality<br>• Article 21: Freedom of expression and opinion, and access to information<br>• Article 24: Education |
| • are building their mental and emotional well-being by developing confidence, resilience and empathy | • Article 6: Survival and development<br>• Article 24: Health and access to health services<br>• Article 29: Aims of education | • Article 7: Children with disabilities<br>• Article 17: Protection for physical and mental integrity<br>• Article 24: Education<br>• Article 25: Right to highest standard of health |
| • apply knowledge about the impact of diet and exercise on physical and mental health in their daily lives | • Article 6: Survival and development<br>• Article 24: Health and access to health services<br>• Article 27: Adequate standard of living<br>• Article 31: Leisure, play and culture | • Article 10: Right to life<br>• Article 20: Personal mobility<br>• Article 25: Health<br>• Article 30: Participation in cultural life, recreation, leisure and sport |



Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r CCUHP a'r UNCRPD ymhlith yr holl ymarferwyr a staff ysgol eraill sy'n darparu dysgu.

Mae cysyniadau ac egwyddorion hawliau dynol hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â dysgu ar draws pob maes o'r cwricwlwm. Gellir gwneud y cysylltiadau hyn mewn lleoliadau i sicrhau bod ymarferwyr a phlant yn datblygu dealltwriaeth o sut mae addysg yn cefnogi hawliau dynol.

Cofiwch i dagio ni ar gyfryngau cymdeithasol am eich gwaith hawliau gwych er mwyn gallu rhannu! Ein cyfeiriad ar gyfer pob cyfryngau cymdeithasol yw:

@childcomwales



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

## Adnoddau defnyddiol/poblogaidd



**POSTER DEALL EICH HAWLIAU**



**CARDIAU SYMBOLAU**



**MATER Y MIS**



**PWERBWYNT GWEITHGAREDDAU HAWLIAU**